**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 3277 (Cy.315)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Newidiadau Etholiadol) 2002

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Yr oedd yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru o dan adran 64(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i hamnewidiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994) adolygu'r trefniadau etholiadol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl yr etholiadau cyntaf i awdurdodau unedol ym Mai 1995.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi ei effaith i'r cynigion a wnaed yn adroddiad Mawrth 2001 Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.

Er bod y Gorchymyn yn diddymu'r holl adrannau etholiadol presennol yn y Fwrdeistref Sirol ac yn eu disodli ag adrannau etholiadol newydd, yn ymarferol bydd y mwyafrif yn aros yr un fath.

Nid oes unrhyw newid i adrannau **Baruc, Buttrills, Cadog, Castleland, Cornerswell, Court, Y Bont-faen, Dinas Powys, Dyfan, Gibbonsdown, Illtud, Llandoche, Llandŵ /Ewenni, Llanilltud Fawr, Llanbedr-y-fro, Y Rhws, Sain Tathan, Saint-y-brid, Stanwell, Gwenfô.**

Mae adran etholiadol bresennol Alexandra yn cael ei rhannu i greu dwy adran etholiadol newydd o'r enw **Plymouth** a **St Augustine's.**

Mae adran etholiadol **Plymouth** i gynnwys ward Plymouth cymuned Penarth. Mae'r adran i'w chynrychioli gan ddau gynghorydd.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 3277 (W.315)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The County Borough of The Vale of Glamorgan (Electoral Changes) Order 2002

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

The Local Government Boundary Commission for Wales was required by section 64(1) of the Local Government Act 1972 (as substituted by the Local Government (Wales) Act 1994) to review the electoral arrangements as soon as practicable after the first elections to unitary authorities in May 1995.

This Order gives effect to the proposals made in the Local Government Boundary Commission for Wales' report of March 2001 for the County Borough of the Vale of Glamorgan.

Although the Order abolishes all existing electoral divisions within the County Borough and replaces them with new electoral divisions, in practice the majority will remain the same.

There is no change to the divisions of **Baruc, Buttrills, Cadoc, Castleland, Cornerswell, Court, Cowbridge, Dinas Powys, Dyfan, Gibbonsdown, Illtyd, Llandough, Llandow/Ewenny, Llantwit Major, Peterston-super-Ely, Rhoose, St. Athan, St. Bride's Major, Stanwell, Wenvoe.**

The existing electoral division of Alexandra is divided to create two new electoral divisions called, **Plymouth** and **St. Augustine's.**

The electoral division of **Plymouth** is to consist of the Plymouth ward of the community of Penarth. The division to be represented by two councillors.

Mae adran etholiadol **St Augustine's** i gynnwys ward St Augustine's cymuned Penarth. Mae'r adran i'w chynrychioli gan ddau gynghorydd.

Bydd y nifer o gynghorwyr sy'n cynrychioli adran bresennol **Sili** yn cynyddu o un i ddau.

Mae ardaloedd yr adrannau etholiadol newydd wedi'u diffinio ar y map manwl a ddisgrifir yn Erthygl 2. Gellir archwilio printiau ohono ar bob adeg resymol yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg ac yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol).

The electoral division of **St. Augustine's** is to consist of the St. Augustine's ward of the community of Penarth. The division is to be represented by two councillors.

The number of councillors representing the existing division of **Sully** increases from one to two.

The areas of the new divisions are demarcated on the detailed map described in Article 2, prints of which may be inspected at all reasonable times at the offices of The Vale of Glamorgan County Borough Council and at the offices of the National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ (Local Government Modernisation Division).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 3277 (Cy.315)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Newidiadau Etholiadol) 2002

*Wedi'i wneud* *6 Rhagfyr 2002*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2)*

Yn unol ag adrannau 58(1) a 64 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**a**) cyflwynodd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru gynigion ym Mawrth 2001 ar gyfer trefniadau etholiadol y dyfodol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi cytuno â'r cynigion yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 58(2) a 67(4) a (5) o'r Ddeddf.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Newidiadau Etholiadol) 2002.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym:

(a) at ddibenion achosion, sy'n rhagarweiniol i unrhyw etholiad neu'n ymwneud ag unrhyw etholiad sydd i'w gynnal ar 6 Mai 2004, ar 9 Hydref 2003, a

(b) at bob diben arall, ar 6 Mai 2004.

(3) Yn y Gorchymyn hwn -

ystyr "adran etholiadol" (*"electoral division"*) yw un o adrannau etholiadol Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a sefydlwyd gan Orchymyn Trefniadau Etholiadol Bro Morgannwg 1994(**b**);

ystyr "y Ddeddf (*"the Act"*) yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

(a) 1972 p.70.

(b) Cafodd y Gorchymyn hwn ei wneud ar 19 Rhagfyr 1994 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 3277 (W.315)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The County Borough of The Vale of Glamorgan (Electoral Changes) Order 2002

*Made* *6th December 2002*

*Coming into force in accordance with article 1(2)*

In pursuance of sections 58(1) and 64 of the Local Government Act 1972(**a**) the Local Government Boundary Commission for Wales submitted proposals in March 2001 for the future electoral arrangements for the County Borough of the Vale of Glamorgan. The National Assembly for Wales having agreed with the proposals makes the following Order in exercise of the powers conferred on it by sections 58(2) and 67(4) and (5) of the Act.

**Name, commencement and interpretation**

**1.**-(1) This Order is called The County Borough of The Vale of Glamorgan (Electoral Changes) Order 2002.

(2) This Order will come into force:

(a) for the purposes of proceedings, preliminary or relating to any election to be held on the 6th May 2004, on the 9th October 2003, and

(b) for all other purposes, on 6th May 2004.

(3) In this Order -

"the Act" (*"y Ddeddf"*) means the Local Government Act 1972;

"electoral division" (*"adran etholiadol"*) means an electoral division of the County Borough of the Vale of Glamorgan constituted by the Vale of Glamorgan Electoral Arrangements Order 1994(**b**);

(a) 1972 c.70.

(b) This Order was made on the 19th of December 1994 by the Secretary of State for the Home Department.

ystyr "map" (*"map"*) yw'r map a farciwyd "map Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Newidadau Etholiadol) 2002" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Newidadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**a**).

**Adrannau Etholiadol**

**2.**-(1) Mae adrannau etholiadol presennol Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a bennir yn yr Atodlen i Orchymyn Trefniadau Etholiadol Bro Morgannwg 1994 yn cael eu diddymu.

(2) At ddibenion ethol cynghorwyr ar gyfer Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, rhennir y Sir honno yn 23 o adrannau etholiadol yn dwyn yr enwau a bennir yng ngholofn (1) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn, a bydd pob adran etholiadol o'r fath yn ffurfio'r ardal a bennir yng ngholofn (2) o'r Atodlen honno, fel y'i dynodir ar y map ac fel y'i diffinnir â llinellau coch.

(3) Y nifer o gynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer pob adran etholiadol o'r fath fydd y nifer a bennir mewn perthynas â'r adran yng ngholofn (3) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Y Gofrestr o Etholwyr Llywodraeth Leol**

**3.** Bydd y swyddog cofrestru yn gwneud unrhyw ad-drefniadau neu addasiadau i'r gofrestr o etholwyr llywodraeth leol sy'n angenrheidiol am fod y Gorchymyn hwn yn dod i rym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

6 Rhagfyr 2002

Y Gweinidog dros Lywodraeth Leol, Cyllid a Chymunedau

(a) O.S. 1976/246, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol (Diwygio) 1978 (O.S. 1978/247).

"map" (*"map"*) means the map marked "map of the County Borough of the Vale of Glamorgan (Electoral Changes) Order 2002" and deposited in accordance with Regulation 5 of the Local Government Area Changes Regulations 1976(**a**).

**Electoral Divisions**

**2.**-(1) The existing electoral divisions of the County Borough of the Vale of Glamorgan specified in the Schedule to the County Borough of the Vale of Glamorgan Electoral Arrangements Order 1994 are abolished.

(2) For the purposes of the elections of councillors for the County Borough of the Vale of Glamorgan, that County shall be divided into 23 electoral divisions bearing the names specified in column (1) of the Schedule to this Order, and each such electoral division is to comprise the area specified in column (2) of that Schedule, as designated on the map and demarcated by red lines.

(3) The number of councillors to be returned for each such electoral division is to be the number specified in relation to the division in column (3) of the Schedule to this Order.

**Register of Local Government Electors**

**3.** The registration officer will make such re-arrangements or adaptation of the register of local government electors as may be necessary due to the coming into force of this Order.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales

6th December 2002

*E. Hart*

Minister for Local Government, Finance and Communities

(a) S.I. 1976/246, as amended by the Local Government Area Changes (Amendment) Regulations 1978 (S.I. 1978/247).

**ATODLEN**

**Erthygl 2**

**Enwau, ardaloedd a'r nifer o gynghorwyr ar gyfer adrannau etholiadol Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg**

| (1) | (2) | (3) |
|---|---|---|
| **Enw'r Adran Etholiadol** | **Ardal yr Adran Etholiadol** | **Y Nifer o Gynghorwyr** |
| Baruc | Ward Baruc Cymuned y Barri | 2 |
| Buttrills | Ward Buttrills Cymuned y Barri | 2 |
| Cadog | Ward Cadog Cymuned y Barri | 3 |
| Castleland | Ward Castleland Cymuned y Barri | 2 |
| Cornerswell | Ward Cornerswell Cymuned Penarth | 2 |
| Court | Ward Court Cymuned y Barri | 2 |
| Y Bont-faen | Cymunedau'r Bont-faen gyda Llanfleiddan, Llan-fair a Phen-llin | 3 |
| Dinas Powys | Cymunedau Dinas Powys a Llanfihangel-ynys-Afan | 4 |
| Dyfan | Ward Dyfan Cymuned y Barri | 2 |

**SCHEDULE**

**Article 2**

**Names, areas and numbers of councillors for the electoral divisions of the County Borough of the Vale of Glamorgan**


| (1) | (2) | (3) |
|---|---|---|
| **Name of Electoral Division** | **Area of Electoral Division** | **Number of Councillors** |
| Baruc | The Baruc ward of the Community of Barry | 2 |
| Buttrills | The Buttrills ward of the Community of Barry | 2 |
| Cadoc | The Cadoc ward of the Community of Barry | 3 |
| Castleland | The Castleland ward of the Community of Barry | 2 |
| Cornerswell | The Cornerswell ward of the Community of Penarth | 2 |
| Court | The Court ward of the Community of Barry | 2 |
| Cowbridge | The Communities of Cowbridge with Llanblethian, Llanfair and Penllyn | 3 |
| Dinas Powys | The Communities of Dinas Powys and Michaelston | 4 |
| Dyfan | The Dyfan ward of the Community of Barry | 2 |

| | | |
|---|---|---|
| Gibbonsdown | Ward Gibbonsdown Cymuned y Barri | 2 |
| Illtud | Ward Illtud Cymuned y Barri | 3 |
| Llandoche | Cymuned Llandoche | 1 |
| Llandŵ/Ewenni | Cymunedau Tregolwyn, Ewenni, Llandw a Llan-gan | 1 |
| Llanilltud Fawr | Cymunedau Llan-maes, Llanilltud Fawr a Sain Dunwyd | 4 |
| Llanbedr-y-fro | Cymunedau Pendeulwyn, Llanbedr-y-fro, Sain Siorys a Llanddunwyd | 1 |
| Plymouth | Ward Plymouth Cymuned Penarth | 2 |
| Y Rhws | Cymunedau Llancarfan a'r Rhws | 2 |
| Sain Tathan | Cymuned Sain Tathan | 1 |
| St Augustine's | Ward St Augustine's Cymuned Penarth | 2 |
| Saint-y-brid | Cymunedau Saint-y-brid a'r Wig | 1 |
| Stanwell | Ward Stanwell Cymuned Penarth | 2 |
| Sili | Cymuned Sili | 2 |
| Gwenfô | Cymunedau Sain Nicolas a Thresimwn a Gwenfô | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| Gibbonsdown | The Gibbonsdown ward of the Community of Barry | 2 |
| Illtyd | The Illtyd ward of the Community of Barry | 3 |
| Llandough | The Community of Llandough | 1 |
| Llandow/ Ewenny | The Communities of Colwinston, Ewenny, Llandow and Llangan | 1 |
| Llantwit Major | The Communities of Llan-maes, Llantwit Major and St. Donats | 4 |
| Peterston-super-Ely | The Communities of Pendoylan, Peterston-super-Ely, St. Georges-super-Ely and Welsh St. Donats | 1 |
| Plymouth | The Plymouth ward of the Community of Penarth | 2 |
| Rhoose | The Communities of Llancarfan and Rhoose | 2 |
| St. Athan | The Community of St. Athan | 1 |
| St. Augustine's | The St. Augustine's ward of the Community of Penarth | 2 |
| St. Bride's Major | The Communities of St. Bride's Major and Wick | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| Stanwell | The Stanwell ward of the Community of Penarth | 2 |
| Sully | The Community of Sully | 2 |
| Wenvoe | The Communities of St. Nicholas and Bonvilston and Wenvoe | 1 |


# Gorchymyn Adrannau Etholiadol Bwrdeistref Sir Bro Morgannwg 2002




Atgynhyrchwyd y map hwn o fap Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chaniatâd yr Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi, © Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Byddai ei atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri'r hawlfraint a gallai arwain at eich erlyn neu ddwyn achos sifil yn eich erbyn. Rhif trwydded GD 272221

CartoGraffeg, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Electoral Arrangements (Order 2002) in the County Borough of The Vale of Glamorgan




This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office.© Crown copyright. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: GD 272221

CartoGraphics, National Assembly for Wales

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif 3277 (Cy.315)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Newidiadau Etholiadol) 2002

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2002 No. 3277 (W.315)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

The County Borough of The Vale of Glamorgan (Electoral Changes) Order 2002

©© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090638-1

9 780110 906386

**£3.00**

W/15/02/03 ON